
Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw



# Y Cod Disgyblaeth

Adolygwyd Mehefin 2025/SAT

# Y Cod Disgyblaeth –Ysgol Gyfan

Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

Pan nad yw safonau ymddygiad yn dderbyniol, mae'r ysgol yn ceisio bod yn gadarn, yn deg, yn glir ac yn gyson:-

- yn **gadarn -** yn yr achosion a ddilynir; cymerir camau; mae'r disgybl yn cael gwybod bod ei ymddygiad yn annerbyniol ac ymdrinir â digwyddiadau difrifol yn unol â hynny, sy'n cynnwys defnyddio'r gweithdrefnau cywir.
- yn **deg -** bod natur y gosb yn gweddu i'r drosedd, ond yn caniatáu ar gyfer amgylchiadau unigol.
- yn **amlwg -** mae dysgwyr a rhieni yn deall y disgwyliadau.
- Yn **gyson -** mae canllawiau clir yn cael eu rhoi i staff i hyrwyddo tegwch wrth ymdrin ag achosion o gamymddwyn a bod yr ystod o gosbau yn cael eu defnyddio'n gyson.

I fod yn effeithiol, rhaid i'r holl staff gefnogi a gweithredu’r polisi ymddygiad yn drylwyr ac yn gyson. Os nad yw hyn yn digwydd, yna bydd y dysgwyr yn drysu a'r polisi'n gwanhau. Rhaid i'n polisi ysgol ar gyfer ymddygiad a disgyblaeth gael ei atgyfnerthu o fewn yr ystafell ddosbarth a'r tu allan iddi gan yr holl staff bob amser.

# Camau'r Cod Disgyblaeth Ysgol Gyfun Gŵyr- Yr Athro

Cam 5-Ymyrraeth TARh-Uned gosb


Cam 4-Ymyrraeth y Pennaeth Blwyddyn

Cam 3-Ymyrraeth y Pennaeth Adran/ Cosb adrannol/PA yn cysylltu adref

Cam 2- Gan yr Athro Dosbarth. Wedi derbyn rhybudd-ymddygiad negyddol yn parhau-cofnodir ar Classcharts / neges adref. Athro dosbarth yn gyfrifol am atalfa o 15 munud egwyl/cinio

Cam 1-Rhybudd gan yr athro dosbarth

Cam 1 - Rhybudd



# Camau'r Cod Disgyblaeth Ysgol Gyfun Gŵyr- Y Dysgwr

Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

Cam 5 - Bydd aelod o'r TARh yn delio a cheir cyfnod yn yr Uned Gwella / Gwaharddiad mewnol neu allanol

Cam 4 - Bydd eich Pennaeth Blwyddyn yn gweithredu


Cam 3 - Atalfa awr ginio

Cam 2 - Os ydych chi wedi derbyn rhybudd a bydd yr ymddygiad negyddol yn parhau-cofnodir ar Classcharts gyda'r neges yn mynd adref. Bydd eich Athro dosbarth yn rhoi atalfa o 15 munud i chi amser egwyl/cinio

Cam 1- Fe gewch chi rybudd gan eich athro dosbarth os na fyddwch yn ymddwyn yn ôl y disgwyliadau



# Y Rhybudd gan yr athro dosbarth Cam 1





**Mae'r Rhybudd yn cynnwys:**

**1-Atgoffa'r disgybl ar lafar** o'r safon ymddygiad disgwyliedig (yn dawel lle bo hynny'n bosibl). Wrth wneud hyn gellir **Ailadrodd y disgwyliadau** os oes angen. **Diffodd y sefyllfa** gymaint ag sydd yn bosibl a cheisio **cadw pethau rhag datblygu**. Ffiniau yn cael ai ail osod. Defnyddio technegau **Ailgyfeirio**- anogaeth dyner, ' hwb ' i'r cyfeiriad cywir, gweithred o garedigrwydd bach.

**2-Yr athro i ddatgan "Rhybudd ffurfiol / olaf"** clir i'r dysgwr wedi'i ddarparu'n dawel lle bynnag y bo modd, gan sicrhau bod y dysgwr yn ymwybodol o'i ymddygiad ac amlinellu'n glir y canlyniadau os bydd yn parhau. Y dysgwr i fyfyrio ar ei gam nesaf.


# Cam 2 Yr Athro Dosbarth




## Mae’r dysgwr yn symud i gam 2

Os nad oes ymateb wedi'r rhybudd ffurfiol, bydd yr athro/athrawes yn **cofnodi enw’r dysgwr** ar system *Classcharts* gyda chanlyniad o **ataliad awtomatig o 15 munud** amser egwyl/cinio gyda’r **athro dosbarth**.

# Cam 3 Y Pennaeth Adran





## Mae'r dysgwr yn symud i gam 3

**Mewn amgylchiadau pan mae rhybudd a cham 1 a 2 wedi methu**, bydd y Pennaeth Adran yn ymyrryd. Strategaethau adrannol/atalfa adrannol.

Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

# Cam 4 Y Pennaeth Blwyddyn

## Cyrhaeddir Cam 4




Os ceir patrwm o ymddygiad annerbyniol gan ddysgwr neu os ceir digwyddiad difrifol, bydd y Pennaeth Blwyddyn yn ymyrryd trwy:-

**Gysylltu gyda’r rhieni/gofalwyr** a threfnir **cosb awr ginio**.


Mae’r opsiwn o lunio **cynllun ymddygiad personol** a dosberthir cerdyn ymddygiad hyd at gyfnod o 10 diwrnod.

Bydd y PB yn m**onitro’r cytundeb/cerdyn ymddygiad**. **Adrodd yn ôl i’r TARh**.

*Gellir atal y dysgwr rhag cynrychioli yr ysgol/cymryd rhan mewn gweithgareddau e.e. cystadleuaeth rygbi, tan fod gwell patrwm o ymddygiad

Os na cheir ymateb cadarnhaol, **symudir y dysgwyr i Gam 5**

# Cam 5 Y T.A.Rh




## Mae dysgwr yn cyrraedd Cam 5:

Os na chydymffurfir â'r camau blaenorol neu os ceir digwyddiad difrifol iawn :-

Trefnir cyfarfod gyda'r **rhieni/gofalwyr** gan aelod o'r **TARh**

**Llunir Cynllun Cefnogi** ar gyfer y dysgwr gyda thargedau penodol i'w cyrraedd a gellir rhoi cyfnodau o addysg i'r dysgwr o fewn **Uned Waharddiad Fewnol yr ysgol** dan arolygaeth


**Adolygir cynnydd** y dysgwr yn ddyddiol a rhaid dangos gwelliant.

****Mewn amgylchiadau lle na fydd gwelliant, bydd gwaharddiad allanol / parhaol yn digwydd.**

# Penllanw-gwaharddiad allanol

Methu ymateb i ddisgyblaeth flaenorol ar sawl achlysur


Gweithgareddau eithafol sy'n effeithio'n ddifrifol ar ddiogelwch, trefn ac addysg o fewn yr ysgol-gall gynnwys trais difrifol, camdriniaeth rywiol, cyflenwi cyffur anghyfreithlon neu fygwth/defnyddio arf beryglus



# Enghreifftiau o ymddygiad penodol sy'n arwain at ataliad Cam 2

## Cam 2

- Amharodrwydd i ganolbwyntio mewn gwers
- Siarad pan fod yr athro/awes wedi gofyn am dawelwch
- Ateb nôl yn haerllug yn y dosbarth
- Siarad Saesneg ar ôl sawl cais i beidio
- Ymyrryd â gwaith dysgwr arall mewn gwers
- Denu sylw dysgwr arall mewn gwers
- Amharodrwydd i weithio ar dasg a osodwyd
- Defnydd o ffôn symudol heb ganiatâd mewn gwers-dim angen rhybudd i symud i gam 1
- Yn hwyr yn gyson i'r wers



Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

# Enghreifftiau o ymddygiad penodol sy’n arwain at Cam 3


## Cam 3

- Digwyddiadau Cam 1 a 2 sydd yn parhau

Neu

- Tangyflawni yn y pwnc
- Diffyg Gwaith cartref yn y pwnc yn gyffredinol.
- Ddim wedi mynychu atalfa’r athro dosbarth


- Tarfu lefel isel parhaus o fewn yr adran
- Diffyg rheolaeth a pharch at aelodau'r adran
- Diffyg parch at adnoddau / adeiladau'r adran



Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

# Enghreifftiau o ymddygiad penodol sy’n torri’r côd disgyblaeth Cam 4


- **Cam 4**
- Ymladd gyda dysgwr arall / annog eraill i ymladd
- Bwlio dysgwr arall
- Rhegi at aelod o’r staff
- Triwantiaeth
- Difrod bwriadol i eiddo’r ysgol
- Camddefnyddio adnoddau TGCh yr ysgol
- Fepio ar dir yr ysgol
- Sylwad sarhaus ar sail hil, rhyw, rhywioldeb, crefydd neu anabledd
- Gweithred amharchus wedi ei anelu at aelod o’r staff
- Gwerthu bwydydd neu ddeunyddiau eraill
- Cam ddefnyddio ffon symudol 3+



Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw

# Enghreifftiau o ymddygiad penodol sy'n torri'r côd disgyblaeth Cam 5

- **Cam 5**
- Ymosodiad ar ddysgwr arall
- Rhegi difrifol at aelod o'r staff
- Dwyn ar safle'r ysgol
- Gadael safle'r ysgol heb ganiatad
- Difrod bwriadol i eiddo'r ysgol
- Ysmygu neu yfed alcohol ar safle'r ysgol
- Cymryd sylwedd anghyfreithlon ar safle'r ysgol
- Camddefnyddio adnoddau TGCh yr ysgol yn ddifrifol
- Camymddwyn mewn arholiad
- Camddefnyddio offer diogelwch tân yr ysgol



Ysgol Gyfun Gŵyr
Gorau byw cyd-fyw